

Eitem: 16 (a)

Teitl: Rhaglen waith y Bwrdd yn dilyn adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd

Angen gweithredu / Action required	I'w gymeradwyo
Amseru / Timing	Gorffennaf 2025
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn a chymeradwyo rhaglen waith arfaethedig y Bwrdd yn dilyn adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill 2025.
Risg / Risk	Os na fydd y Bwrdd yn datblygu ac yn cytuno ar raglen waith yn dilyn adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun, mae risg na fydd Bwrdd Llais yn parhau i ddatblygu a sicrhau bod ei weithrediad a/neu ei broses gwneud penderfyniadau yn cyd-fynd ag arfer llywodraethu da a gofynion statudol gofynnol, ei Reolau Sefydlog ei hun a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol Llais.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'n blaenoriaeth i dyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant Llais.

Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae'r Bwrdd wedi bod â rhaglen waith datblygu treigl ar waith ers ei sefydlu, sydd wedi'i hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd.
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
Dyddiad / Date	17 Gorffennaf 2025
Cefndir / Background	
Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd: Cynhaliodd y Bwrdd Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd cynhwysfawr yn ei gyfarfod ddiwedd mis Ebrill 2025. Adolygodd y sesiwn hon effeithiolrwydd y Bwrdd a nododd nifer o feysydd allweddol i'w datblygu yn y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y rhaglen waith arfaethedig sydd ynghlwm, a fydd yn cael ei datblygu drwy Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Bydd y Bwrdd hefyd o bosibl yn nodi meysydd ychwanegol i'w datblygu yn ystod y flwyddyn os bydd eu hangen i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y rhaglen ddatblygu. Cyflwynir diweddariad ar gynnydd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2025.	
Manylion / Detail	
Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad hwn, y dull a amlinellwyd a'r rhaglen ddatblygu arfaethedig sydd ynghlwm.	